# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 5

COSBAU

## PENNOD 5

COSBAU SY'N YMWNEUD AG YMCHWILIADAU

*Cosbau pellach am barhau i fethu â chydymffurfio neu am barhau i rwystro*

### 151 Cosb gysylltiedig â threth am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth neu am rwystro

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) person yn dod yn agored i gosb o dan adran 146,

(b) y methiant neu'r rhwystr yn parhau ar ôl y diwrnod y dyroddir hysbysiad am gosb o dan adran 153(1)(b) mewn cysylltiad â'r gosb,

(c) ACC â rheswm i gredu bod swm y dreth ddatganoledig y mae'r person wedi ei dalu, neu y mae'n debygol o'i dalu, yn sylweddol is na'r hyn y byddai wedi bod fel arall o ganlyniad i'r methiant neu'r rhwystr,

(d) cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad perthnasol, ACC yn gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys i gosb ychwanegol gael ei gosod ar y person (gweler is-adran (6)) ac yn rhoi hysbysiad am y cais i'r person, ac

(e) yr Uwch Dribiwnlys yn penderfynu ei bod yn briodol gosod cosb ychwanegol.

(2) Mae'r person yn agored i gosb o swm a bennir gan yr Uwch Dribiwnlys.

(3) Wrth bennu'r swm, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys roi sylw i swm y dreth ddatganoledig nad yw'r person wedi ei dalu, neu nad yw'n debygol o'i dalu.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Mae unrhyw gosb o dan yr adran hon yn ychwanegol at y gosb neu'r cosbau o dan adran 146 neu 147.

(5) Yn is-adran (1)(d), ystyr y "dyddiad perthnasol" yw—

(a) mewn achos sy'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth y caiff person apelio yn ei erbyn, y diweddaraf o'r canlynol—

(i) y diwrnod y daeth y person yn agored i'r gosb o dan adran 146,

(ii) os na wneir apêl yn erbyn yr hysbysiad gwybodaeth, diwedd y cyfnod y gellid bod wedi gwneud apêl o'r fath, a

(iii) os gwneir apêl o'r fath, y diwrnod y caiff yr apêl ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl, a

(b) mewn unrhyw achos arall, y diwrnod y daeth y person yn agored i'r gosb o dan adran 146.

(6) Ni chaiff ACC wneud cais o'r math a grybwyllir yn is-adran (1)(d) os yw penderfyniad sy'n ymwneud â chosb o dan adran 146, 147 neu 150 mewn cysylltiad â'r methiant neu'r rhwystr yn destun—

(a) adolygiad nad yw hysbysiad am ei gasgliadau wedi ei ddyroddi hyd yma, neu

(b) apêl nad yw wedi ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl hyd yma.